Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, Hydref 10fed, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Fran Murphy, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Roy Davies.
Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Y Maer Cyng Richard Wallace, Y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas.

Cyn y cyfarfod, arwyddodd Mr Christopher Parish y Datganiad o Dderbyniad fel aelod cyf etholedig newydd y Cyngor i gymryd y sedd wag ar Ward y Castell.

Cof 161/ Hydref/ 07 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/17338 Addasu dau adeilad amaethyddol segur yn ganolfan adeiladu traddodiadol a chynaliadwy ar Fferm Dinefwr
Sylw: Dim gwrthwynebiadau. Falch fod yr hen adeiladau'n cael eu hadnewyddu.

E/17339 Cais adeilad rhestredig ar gyfer yr uchod.
Sylw : Dim gwrthwynebiadau

Cof 162/ Hydref/ 07 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Caniatawyd y cais cynllunio canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC

E/16924 Newid defnydd sied gerbydau a rhannau (B8) at ddefnydd diwydiannol ysgafn (B1) yn 16, Heol Rhosmaen.

Cof 163/ Hydref / 07 Ni thynnwyd unrhyw Gynllunio yn ôl.

Cof 164/ Hydref / 07 Cludiant a Phriffyrdd

Ni chodwyd unrhyw faterion

Cof 165/ Hydref /07 Goleuadau

Adroddodd y Cyng Dawn Wallance am olau stryd diffygiol chwe wythnos ynghynt, a hyd yn hyn nid yw CSC wedi gweithredu. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu i gwyno nad yw'r gwasanaeth yn un boddhaol.

Cof 166/Hydref / 07 Adroddiad Llwybrau Troed.

Hysbysodd Swyddog Hawliau Tramwy CSC, Caroline Ferguson y Cyngor nad oedd yn bosib ystyried yr awgrymiadau a gyflwynwyd fel llwybr y gwyriad ar hyd llwybr troed Crug Manor, ond roedd yn bosib eu hail gyflwyno wedi i'r atodlenni eu gosod. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ymateb pan fydd y posteri wedi'u harddangos.

Adroddodd y Swyddog Technegol bod ffos wedi'i thorri, gan Western Power, yn agos iawn at reilins y bont siglo gan achosi niwed i'r sylfaen. Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Mr Eirian Davies, y tirfeddiannwr, a Western Power yn rhoi gwybod iddynt am natur beryglus y rheilins.

Hefyd argymhellwyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o Gyngor Bro Dyffryn Cennen ar ymweliad safle i'r bont siglo ynghyd â swyddogion CSC, ac y dylid anfon copi o'r gwahoddiad at Ieuan Jones y Cynghorydd Sir.
Rhoddodd y Clerc rhybudd o gyfarfod i'w gynnal ym Mharc Penlan ar ddydd Mercher, Hydref 17eg am 10.30am, rhwng Mr Gerwyn Thomas CSC, cynrychiolwyr y Cyngor Tref a chynrychiolwyr y Clwb Garddio i drafod mesurau i wella'r planhigion a thirwedd y Parc, rhoddir gwahoddiad i'r CS Ieuan Jones yn ogystal.

Cof 167/ Hydref / 07 Gohebiaeth

1. Y Siambr Fasnach yn hysbysu'r Cyngor o'i bwriad i gynnal Gŵyl y Nadolig yn y Dref rhwng 20fed a 24ain Tachwedd. Maent wedi gwneud cais i CSC am ganiatâd i ddefnyddio ardal y farchnad, sydd wrth ymyl y maes parcio, ar gyfer cynnal marchnad awyr agored.
   Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y byddai'n amhosib newid y dyddiad ar gyfer cynnau'r goleuadau Nadolig yn y Dref o'r dyddiad a gytunwyd sef dydd Gwener, Tachwedd 30ain, a hynny gan fod y Siambr Fasnach braidd yn hwyr yn rhoi gwybod. Y gobaith yw y gellir cydlynu'r ddau ddigwyddiad hwn yn 2008. Mae angen annog yr Ŵyl. Cytunwyd y dylai'r Swyddog Technegol fynd gyda'r Maer i gyfarfod nesaf y Siambr Fasnach.

2. Dywedodd y Cyng Roy Davies bod Davies Richards yn bwriadu cynnal cyfarfod cynllunio yn Neuadd y Sir ar Dachwedd 15fed. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Davies Richards i wneud yn siŵr eu bod wedi trafod gydag Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cambria cyn iddynt gadarnhau dyddiadau'r cyfarfodydd.

Cof 168/ Hydref / 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Holodd y Cyng Colin Jenkins os oedd y polisi yswiriant a dynnwyd allan ar gyfer yr arddangosfa Tân Gwyllt yn ddilys er mwyn gwerthu 'cŵn poeth' gan adran Rygbi Ieuenctid Llandeilo. Adroddodd y Swyddog Cyllid nad yw mudiadau allanol yn gymwys yn yr achos hwn. Y Clerc i hysbysu Mr Wyn Jones o Glwb Rygbi Llandeilo o'r angen i feddu ar yswiriant eu hunain.
Gofynnwyd i'r Swyddog Technegol i ystyried safle mwy addas ar gyfer lleoli'r plac treftadaeth y tu allan i Neuadd y Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05pm